Cyngor cymuned Mai 17 2018 Cyfarfod Blynyddol am 8 o'r gloch yn Neuadd Santes Ursula

Presennol : Huw Griffith, Islwyn Jones, Morgan Morgan, Fred Jones, Lyn Davies a'r clerc

Ymddiheuriad Margaret Lewis, Dylan Davies a'r Cynghorydd Rowland Rees-Evans

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2017
Darllenwyd adroddiad yr archwiliwr mewnol, ac ar ôl sicrhau bod y ffigurau i gyd yn gywir arwyddwyd y llyfr cyfrifon a'r ffurflenni ariannol gan y Cadeirydd a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Edrychwyd hefyd ar yr holl wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdano gyda'r ffurflen ariannol ac arwyddwyd copïau ardystiedig fel oedd angen.

Cyn gorffen ei dymor fel Cadeirydd, diolchodd Fred Jones i'w gyd-gynghorwyr am eu cefnogaeth dros y flwyddyn, ac i'r clerc am ei gwaith.

Penodwyd Huw Griffith yn Gadeirydd, David Jones yn is-gadeirydd a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol fydd Fred Jones.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod Ebrill 19 2018 ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi

1 Adroddwyd i'r brifathrawes fod mewn cysylltiad â'r adeiladwr ynglŷn â chywiro'r wal ar waelod llwybr yr ysgol
2 Cofrestr asedau. Cadarnhawyd mai'r Clwb Croeso sydd â chyfrifoldeb am y fainc ger y ciosg ffôn yn y pentre. Penderfynwyd y dylid ychwanegu'r gofgolofn yn yr hen fynwent at y rhestr asedau. Derbyniwyd ateb o'r Cyngor Sir i ddweud mai eu cyfrifoldeb hwy yw'r polion trydan i gyd. (9 ohonynt). Mae'r Cyngor Cymuned yn talu'r Cyngor Sir am oleuni am oriau ychwanegol rhwng 12 y nos a 5 y bore ar dair lamp. Codwyd y cwestiwn wedyn pam fod y Cyngor Cymuned yn talu Scottish Power hefyd? Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Swyddog goleuadau stryd yn Aberaeron i geisio datrys y dryswch.
   Gan fod un bil trydan arall newydd ddod i law oddi wrth Scottish Power awdurdodwyd talu hwnnw - £13.99.
   Pan fydd cynnwys y cofrestr asedau wedi ei gytuno'n derfynol bydd angen edrych ar werth yr asedau fel mae'n ymddangos ar y ffurflen ariannol flynyddol.
   3 Adroddwyd bod goleuadau rhybudd ysgol wedi cael eu cywiro a bellach yn gweithio'n gywir.
   4 Paratowyd llythr mewn ymateb i'r cylchlythyr ynghlŷn â pherchnogion cŵn anghyfrifol i'w anfon at Reolwr Masnachol y Cyngor Sir.

Gohebiaeth
Gwybodaeth am Bwyllgor Rheoli Datblygu mis Mai; Cylchgrawn Chwarae dros Gymru; Clerks and Councils Direct; gwybodaeth am Bwyllgor Ardal Ceredigion Un Llais Cymru yn Aberaeron 23ain Mai, cais am rywun i fod yn aelod o Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion; poster yn

hysbysebu cyfle i ddweud eich dweud ynglŷn â Thrawsnewid ein Gwasanaeth Iechyd, a chais gan y Panel sy'n adolygu Cynghorau ar i'r Cyngor drefnu digwyddiad galw heibio lle y gall aelodau'r gymuned ddod i roi eu barn.

Ymgynghoriad Cynllunio Tŷ Coch Villa A180380. Dim sylwadau a dim gwrthwynebiad.
Cadarnhad gorchymyn gwyro llwybr troed Pengelli.
Cytunwyd i ofyn i'r Clwb Ffermwyr Ifanc i dorri gwair y fynwent eleni eto.

Ebyst

Deallwyd, oherwydd newid a wneir i'r Ddeddf Diogelu Data, na fydd yn rhaid i'r Cyngor Cymuned gael Swyddog Diogelu Data, na thalu ffi Diogelu Data, na chofrestru gyda'r ICO (Information Commisioner's Office) ond awgrymir y dylid penodi rhywun o'r Cyngor i sicrhau cydymffurfio gyda'r Ddeddf. Bydd angen ychwanegu'r Ddeddf at y tabl asesu risg.

Swyddog datblygu newydd Un Llais Cymru fydd Mel ab Owain.
Cyngor Sir Ceredigion yn barod i roi grant ar gyfer grwpiau gweithgaredd corfforol. (Allan o'r Community Chest)
Gwybodaeth am daith feicio 6 niwrnod, a drefnir trwy Gymru Gorffennaf 2019, a gofyn am hysbysrwydd yn lleol a chyfle i rai wirfoddoli fel stiwardiaid. Bydd y daith yn mynd trwy Lanilar ar y ffordd yn ôl i Aberystwyth ar y diwrnod olaf.

Ariannol

Yswiriant . Derbyniwyd dyfynbris oddi wrth y cwmni newydd BHIB ac hefyd oddi wrth Zurich. Ar ôl cymharu'r ddau roedd Zurich dros £40 punt yn rhatach. Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiad ynglŷn ag un pwynt ac os byddai'r ateb yn foddhaol awdurdodwyd talu Zurich £258.73.

Gwybodaeth am daliadau'r praesept mewn tair rhan, diwedd Ebrill, diwedd Mehefin a diwedd Hydref. Oherwydd hyn bydd raid cadw llygad wyliadwrus ar y cyllid rhag gorwario.
Derbyniwyd ad-daliad TAW £13.20
Arian yn y banc – Cyfrif Cyfredol £1944.14 ond siec cyflog heb fynd allan
Cyfrif 2 - £25676.48 ond £400 Canolfan Bethel heb fynd allan
Awdurdodwyd talu'r archwiliwr mewnol, Anthony Morgan, £100 .
Derbyniwyd cais gan Merched y Wawr am gyfraniad ariannol a chytunwyd i roi £250 allan o gyfrif rhif 2.

Dosbarthwyd mwy o wybodaeth oddi wrth Elancity am yr Arwydd Cyflymder RADAR a phenderfynwyd rhoi cyfle i bawb gael amser i'w ddarllen a'i drafod y tro nesaf.

Dyddiad y cyfarfod nesaf Mehefin 21 2018